ARWEINIAD I DDEFNYDDIO COFLEIN

CYSYNIADAU CRAIDD

Gall dysgwyr ymholi, archwilio ac ymchwilio i safleoedd hanesyddol yng Nghymru gan ddefnyddio gwefan Coflein, i ddod i ddeall pwy sydd wedi byw yn eu hardal leol trwy gydol hanes, a sut yr oedd y tir yn cael ei ddefnyddio o bosibl. Gall dysgwyr ddefnyddio Coflein i ymchwilio i sut mae cymunedau wedi newid a chymhwyso hyn i'w gwybodaeth am ba sbardunau a allai fod wedi achosi i safleoedd hanesyddol newid dros amser. Gall dysgwyr gyfuno eu gwybodaeth a'u sgiliau creadigol i gyfathrebu a chyflwyno gwybodaeth yn effeithiol.

Mae'r adnodd hwn wedi'i fwriadu ar gyfer **camau cynnydd 3–5**; fodd bynnag gellir addasu'r gweithgaredd a awgrymir ar gyfer amrywiaeth o gamau cynnydd.

ARWEINIAD

Mae gan Gymru gyfoeth o hanes a safleoedd archaeolegol a all ddysgu mwy i ni am gymunedau'r gorffennol. Mae cyfoeth o wybodaeth am safleoedd hanesyddol Cymru, a gellir cyrchu llawer o'r wybodaeth hon ar Coflein. Mae Coflein yn gatalog ar-lein rhad ac am ddim o archeoleg, adeiladau, treftadaeth ddiwydiannol a morwrol yng Nghymru. Dyma gronfa ddata Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru a chaiff ei chynnal gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.

Bydd yr adnodd hwn yn amlygu nodweddion allweddol Coflein ac yn cynnwys rhai gweithgareddau a awgrymir y gellir ei ddefnyddio ar eu cyfer.

Adluniad o gaer bentir Caerfai yn Sir Benfro.
Adluniad gan Wessex Archaeology.

Defnyddio'r swyddogaeth map i chwilio am safleoedd treftadaeth yn eich cymdogaeth neu ardal benodol. Ewch i https://coflein.gov.uk/cy/mapio/

1. O dan y bar chwilio, cliciwch ar 'Safle Chwilio Uwch'
2. O'r gwymplen, dewiswch 'Cyfnod'
3. Lle mae'n dweud teipiwch rywbeth, rhowch gynnig ar 'Oes yr Haearn', 'Rhufeinig', 'Mesolithig' ac ati yn dibynnu ar y cyfnod yr hoffech chi edrych arno.
4. Defnyddiwch y swyddogaeth chwyddo i leoli eich ardal a chwiliwch am safleoedd treftadaeth sy'n lleol i chi.
5. Unwaith y gallwch weld yr eicon togl glas, cliciwch ar hwn am ychydig o wybodaeth.
6. Dewiswch 'View'. Bydd hyn yn mynd â chi i dudalen wybodaeth sy'n rhoi gwybodaeth allweddol a disgrifiad o'r lleoliad. Gall y tab delweddau fod yn swyddogaeth ddefnyddiol hefyd.

Mae rhagor o wybodaeth a chanllawiau ar gael yma: https://coflein.gov.uk/cy/cymorth/

Caer Bentir Bae Flimston. Mae olion amddiffynfa'r gaer i'w gweld yn y rhagfuriau ar ochr dde'r ddelwedd.

GWEITHGAREDDAU A AWGRYMIR

1. Gall Coflein fod yn arf defnyddiol ar gyfer tasgau ymchwil a bydd yn helpu i ateb y cwestiynau canlynol, trwy ganolbwyntio ar safle penodol a ddewiswyd gan yr athro/dysgwr:
   - Pa fath o safle oedd y safle hanesyddol?
   - O ba gyfnod oedd y safle hanesyddol yn cael ei ddefnyddio?
   - Ydy'r safle wedi newid?
   - A adeiladwyd ar y safle neu a ydyw wedi'i gadw?
   - Beth mae'r safle'n cael ei ddefnyddio ar ei gyfer ar hyn o bryd?
   - A ddarganfuwyd unrhyw arteffactau ar y safle? Os felly, beth ydyn nhw?
   - A oes unrhyw nodweddion arbennig neu unigryw sy'n gwneud y safle hwn yn arbennig o arwyddocaol?

CHERISH
Newid Hinsawdd a Threftadaeth yr Arfordir
Climate Change and Coastal Heritage
Athrú Aeráide agus Oidhreacht Chultúrtha

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

EU Funds: Ireland Wales Programme 2014-2020
Tionól Réigiúnach an Deiscirt Southern Regional Assembly
Cláir Chisti Eorpacha Struchtúrtha agus Infheistíochta na hÉireann 2014-2020
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop European Regional Development Fund

CBHC RCAHMW
Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales